



Papur Gwybodaeth Manwl

Ar 16 Mawrth 2016 cyhoeddodd George Osborne, Canghellor y Trysorlys, gynlluniau cyllidebol Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer 2016/17 a thu hwnt, gan ddweud y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn canolbwyntio ar roi'r genhedlaeth nesaf yn gyntaf.

Prif thema'r gyllideb oedd cefnogi plant a chenedlaethau'r dyfodol. Roedd y penawdau allweddol yn cynnwys symudiad i bob ysgol yn Lloegr ddod yn Academiâu am ddim a chyflwyno lefi ar siwgr - neu 'dreth siwgr'. Bydd y ddau newid yma'n golygu cyllid ychwanegol ar gyfer Cymru drwy gyllid canlyniadol, ond mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu sut mae'n dymuno gwario unrhyw arian ychwanegol.

Gyda'r economi byd-eang yn simsan, cyhoeddodd y Llywodraeth y cafodd rhagolygon blaenorol o gynnydd mewn cynhyrchiant ac allbwn economaidd eu gostwng ond dywed fod ei chynllun economaidd hirdymor wedi paratoi'r Deyrnas Unedig ar gyfer heriau dyfodol ansicr i'r economi. Wrth barhau ei chynllun economaidd hirdymor, mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i dorri £3.5m ychwanegol o wariant cyhoeddus (gostyngiad o 0.5%), cefnogi busnesau drwy newidiadau i'r dreth gorfforaeth a'r dreth enillion cyfalaf, cynyddu lwfansau personol i £11,500 a throthwy'r gyfradd uwch i £45,000 a chreu ISA Gydol Oes hyblyg ar gyfer pobl ifanc a therfyn ISA uwch ar gyfer pawb.

Ar gyfer Cymru, cyhoeddodd y Canghellor ostyngiad o 50% yn nollau pontydd Hafren unwaith y byddant yn eiddo cyhoeddus yn 2018, hwb arall i dde ddwyrain Cymru yn dilyn cadarnhau dêl Dinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Canghellor hefyd wedi cyhoeddi cynlluniau i ddechrau trafodaethau ar gynllun Cytundeb Dinas tebyg i Abertawe a sicrhau fod gan Ogledd Cymru ran yng nghynlluniau Pwerdy'r Gogledd ar gyfer Gogledd Lloegr.

Er bod y Llywodraeth yn hawlio ei bod yn datganoli mwy nag erioed, ni chyhoeddwyd unrhyw fesurau datganoli pellach i Gymru er y cynlluniau i ddatganoli cyfiawnder troseddol i Fanceinion Fwyaf. Fodd bynnag, fe wnaeth y Llywodraeth gadarnhau eu cynlluniau i ddatganoli pwerau treth incwm i Gynulliad Cenedlaethol Cymru heb fod angen cynnal refferendwm.

Crynodeb o Newidiadau:

- Cadarnhau newidiadau i'r ffordd y caiff Taliadau Annibyniaeth Personol eu cyfrif.
- Cadarnhau blwyddyn o oedi wrth weithredu'r cap Lwfans Tai Lleol i Fudd-dal Tai ar gyfer cynlluniau tai â chymorth.
- Cynnydd arian bach yng nghyllidebau cyfalaf a refeniw Llywodraeth Cymru yn hwyr yn nhymor y Cynulliad nesaf.
- Cadarnhau Dêl Dinas Caerdydd a chyhoeddi trafodaethau ar fwy o ddatganoli rhanbarthol
- Cyhoeddi nifer o gynlluniau cynilo newydd
- Ad-drefnu darparwyr canllawiau ariannol statudol, yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngori Ariannol.

Mesurau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gymdeithasau tai Cymru



1. Diwygio Taliad Annibyniaeth Personol

Fel y cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Gwaith a Phensiynau yr wythnos ddiwethaf, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gwneud nifer o newidiadau i Daliadau Annibyniaeth Personol yn cynnwys:

- Newidiadau i'r ffordd y caiff hawl i Daliad Annibyniaeth Personol ei benderfynu; gostwng nifer y pwyntiau asesu a ddyfernir am fod angen defnyddio cymorth neu gyfarpar ar gyfer dau o'r gweithgareddau 'byw bob dydd' a aseswyd. Daw hyn i rym ar gyfer achosion newydd ac ail-asesu o Ionawr 2017.
- Newid trefniadau ar gyfer hawlwr gyda salwch terfynol yn symud o Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i PIP, gan olygu y bydd hawlwr a gaiff ddyfarniad uwch dan PIP yn cael y dyfarniad uwch hwnnw o ddyddiad y penderfyniad, yn hytrach nag aros am eu dyfarniad DLA am y cyfnod aros safonol o bedair wythnos
- Ystyried yr achos dros ddiwygiad hirdymor ar fudd-daliadau a gwasanaethau anabled.

Effaith

Mae tua 52,000 o bobl yn hawlio Taliadau Annibyniaeth Personol yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda 92,000 arall yn dal i Hawlio Lwfans Byw i'r Anabl y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn amcangyfrif y bydd y newid i gymhorthion a chyfarpar yn gwneud newidiadau sylweddol o tua £1.2bn ar draws y Deyrnas Unedig.

2. Blwyddyn o ohirio wrth weithredu'r cap Lwfans Tai Lleol i Fudd-dal Tai ar gyfer llety â chymorth

Caiff y dyddiad y bydd tenantiaethau newydd neu denantiaethau a adnewyddwyd yn y sector cymdeithasol yn amodol i'r cap ar Fudd-dal Tai ar y gyfradd berthnasol o Lwfans Tai Lleol ei ohirio ar gyfer llety â chymorth - o Ebrill 2016 i Ebrill 2017 - i alluogi'r llywodraeth i gwblhau adolygiad o lety â chymorth.

Effaith

Mae'r oedi o un flwyddyn wrth weithredu'r cap i lety â chymorth yn rhoi cyfle i'r Adran Gwaith a Phensiynau barhau eu hadolygiad strategol o dai â chymorth drwy Ipsos MORI, ond nid yw'n cynnig sicrwydd i denantiaid na darparwyr tai cymdeithasol am ddyfodol tai â chymorth. Bydd CHC yn parhau i roi cefnogaeth i aelodau sy'n cymryd rhan yn yr adolygiad, a byddwn yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau ei bod yn casglu darlun llawn o'r hyn a gynigir gan lety â chymorth ac y caiff anghenion y cenedloedd datganoledig eu cynnwys mewn unrhyw bolisi ar draws y Deyrnas Unedig.

Canfu ein harolwg diweddar o gymdeithasau tai Cymru fod rhent 57% o lety â chymorth yn uwch na chyfradd bresennol LHA ac rydym yn glir fod cynnig Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gynnydd bach mewn DHP yn



annigonol. Dengys ffigurau o'r arolwg y bydd y cyfanswm DHP sydd ei angen i liniaru effaith y cap ar gyfer llety â chymorth yn cyrraedd y swm anghynladwy o £21.3m y flwyddyn.

Bydd y cap Lwfans Tai Lleol yn dal i fod yn weithredol i bob tenantiaeth newydd arall a lofnodir o Ebrill 2016, gydag unrhyw doriad i fudd-dal tai yn weithredol o Ebrill 2018, a blaenoriaeth CHC yn awr fydd canfod union fanylion y polisi sy'n dal yn aneglur. Amcangyfrifwn yr effeithir ar tua 10,000 o hawlwyrr yn Ebrill 2018, ac mae'n hanfodol fod gan denantiaid a landlordiaid sy'n dechrau ar denantiaeth o fis Ebrill eleni ymlaen eglurdeb a sicrwydd am y newidiadau hyn.

3. Dêl ddinesig £1.2 bn ar gyfer Prifddinas Ranbarth Cymru; trafodaethau ar ddeliau twf ar gyfer Abertawe a Gogledd Cymru

Fel y cyhoeddwyd ddiwrnod cyn y Gyllideb, llofnodwyd dêl ar gyfer Dêl Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd lle bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyfrannu £500m at y pecyn cynhwysfawr o £1.2bn i gefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a phrosiect Metro De Ddwyrain Cymru.

Cyhoeddodd y Canghellor hefyd y bydd trafodaethau'n dechrau gyda phartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, am Ddêl Dinas Abertawe yn ymestyn o Sir Benfro i Gastell-nedd Port Talbot, ac anogodd Lywodraeth Cymru yn dilyn yr etholiad i ddatganoli grymoedd a buddsoddiad i Ogledd Cymru i greu rhanbarth twf sydd wedi integreiddio'n fwy gyda 'Phwerdy Gogleddol' Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Effaith

Bydd Dêl Dinas Caerdydd yn gweld buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith a sgiliau yn y deg awdurdod lleol sy'n ffurfio rhan o'r Brifddinas-Ranbarth ac yn anelu i hybu dull gweithredu mwy strategol at gynllunio, fydd â goblygiadau ar gyfer datblygu seilwaith arall yn cynnwys tai. Caiff y trefniadau llywodraethiant a manylion terfynol y Ddêl Dinas eu ffurfio yn dilyn y cyhoeddiad hwn a bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn gweithio gydag aelodau ledled y Brifddinas-Ranbarth i ddatblygu a dylanwadu ar y cynnig tai.

4. Cynyddu cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru

Bydd y newidiadau a wneir yng nghyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn arwain at gynnydd bach i gyllideb Llywodraeth Cymru, mewn termau arian, yn hwyr yn nhyrnor y Cynulliad nesaf. Bydd y newidiadau hyn, a amlinellir islaw, yn arwain at gynnydd o £358m mewn refeniw, a chynnydd o £22m mewn cyfalaf dros y pedair blynedd nesaf.

Terfyn Gwariant Adnoddau Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru (£bn)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
--	---------	---------	---------	---------	---------	---------



Datganiad yr Hydref	12.9	13.0	13.1	13.2	13.3	*
Cyllideb Mawrth 2016	12.8	13.0	13.3	13.3	13.4	*

Terfyn Gwariant Cyfalaf Adrannau (DEL) Llywodraeth Cymru (£bn)

	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20	2020-21
Datganiad yr Hydref	1.5	1.5	1.5	1.6	1.6	1.7
Cyllideb Mawrth 2016	1.5	1.5	1.6	1.6	1.7	1.7

Effaith

Dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw'r cynnydd bach yma i'w chyllideb yn dadwneud chwe blynedd o gyny cyllidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, bydd cynnydd mewn cyllidebau referniw a chyfalaf yn golygu fod mwy o arian ar gael ar brosiectau fel Cefnogi Pobl a chyllid megis Grant Tai Cymdeithasol.



5. Cynlluniau cynilo newydd

Lansiodd y Canghellor ddau gynllun cynilo newydd fel rhan o'i gyllideb: *Help i Gynilo* ac *ISAs Gydol Oes*.

Bydd **Help i Gynilo** yn galluogi unigolion mewn aelwydydd incwm isel i gynilo hyd at £50 y mis mewn cyfrif Help i Gynilo a derbyn bonws o 50% gan y llywodraeth ar ôl dwy flynedd. Gall deiliaid cyfrif wedyn ddewis parhau i gynilo dan y cynllun am ddwy flynedd bellach. Bydd y cynllun ar agor i bob oedolyn sy'n derbyn Credyd Cynhwysol gydag isafswm enillion aelwyd wythnosol yn gyfwerth â 16 awr ar y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r rhai sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith. Bydd cyfrifon ar gael erbyn mis Ebrill 2018.

Bydd **ISAs Gydol Oes** ar gael o fis Ebrill 2017 ar gyfer oedolion dan 40 oed. Gall cynilwyr gyfrannu hyd at £4,000 y flwyddyn a derbyn bonws o 25% gan y llywodraeth. Gellir defnyddio cyllid, yn cynnwys bonws y llywodraeth, i brynu cartref cyntaf unrhyw bryd o 12 mis ar ôl agor y cyfrif, neu gael ei dynnu o 60 oed. Wrth ochr hyn, cynyddir cyfanswm terfyn tanysgrifiad ISA di-dreth i £20,000 o Ebrill 2017.

Effaith

Bydd y ddau gynllun hyn ar gael ac o ddiddordeb i lawer o denantiaid cymdeithasau tai.

6. Newidiadau pensiwn Gwasanaeth Cyhoeddus

Bydd angen i gyflogwyr sy'n cynnig pensiynau gwasanaeth cyhoeddus dalu cyfraniadau uwch yn dilyn adolygiad gan y llywodraeth o gyfradd disgownt SCAPE. Defnyddir y gyfradd ddisgownt i osod cyfraniadau cyflogwyr i'r cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus nas cyllidir a chaiff ei gosod ar 2.8% gyda chyfraniadau cyflogwyr yn cynyddu o 2019-20.

7. Ad-drefnu darparwyr arweiniad ariannol statudol, yn cynnwys y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Bydd y llywodraeth yn ailstrwythuro'r darparwyr arweiniad ariannol statudol - y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, y Gwasanaeth Cyngori Pensiynau a Pension Wise - gan anelu i sicrhau y gall defnyddwyr gael mynediad i'r help maent ei angen i wneud penderfyniadau ariannol effeithlon. Bydd y model cyflenwi newydd yn cyfeirio mwy o gyllid i'r rheng flaen ac yn cefnogi cymorth ar y meysydd o fwyaf o angen defnyddwyr. Bydd yn cynnwys:

- Corff newydd i roi arweiniad ar bensiynau, i wneud yn siŵr y gall defnyddwyr gael ateb i'w holl gwestiynau pensiwn mewn un lle, ar bob cam o'u bywyd
- Corff arweiniad arian newydd llai yn gyfrifol am ddynodi bylchau yn y farchnad arweiniad ariannol a chomisiynu darparwyr i lenwi'r bylchau hyn i sicrhau y gall defnyddwyr gael mynediad i'r cyngor y maent ei angen ar ddyledion ac arian.

Mesurau'n effeithio ar dai mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig



Gwnaed nifer o gyhoeddiadau eraill yng nghyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n effeithio ar dai tu allan i Gymru, a all fod o ddiddordeb yn cynnwys:

Cyflymu **£250m o fuddsoddiad cyfalaf** mewn tai a gyhoeddwyd yn flaenorol yn ystod Datganiad yr Hydref, gan alluogi cyflenwi 13,000 cartrefi rhanberchenogaeth yn Lloegr ddwy flynedd yn gynt na'r bwriad.

Mae awdurdodau lleol yn Lloegr yn cydweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i **ryddhau tir all ddarparu ar gyfer o leiaf 160,000 o gartrefi**, gan helpu i gefnogi polisi'r llywodraeth ar adfywio stadau. Wrth ochr hyn, bydd yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau yn gweithio mewn partneriaeth gyda Network Rail ac awdurdodau lleol i ddarparu tir o amgylch gorsafoedd ar gyfer tai, datblygiad masnachol ac adfywio.

£115m o gyllid i gefnogi rhai sy'n cysgu ar y stryd a mynd i'r afael â diweithdra, yn cynnwys £100 miliwn i ddarparu llety 'ail gam' cost isel i rai sy'n cysgu ar y stryd yn gadael llety hostel a dioddefwyr cam-drin domestig a'u teuluoedd yn symud ymlaen o lochesi, a £10 miliwn pellach dros ddwy flynedd i gefnogi a chynyddu ffyrdd blaengar i atal a gostwng cysgu ar y stryd.